Fforwm
Mynediad Lleol
Bro Morgannwg

Adroddiad
Blynyddol
2016/17

Rhagair

Fel y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd, rydym yn falch o allu cyflwyno Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Bro Morgannwg 2016/17.

Mae'r adroddiad yn grynodeb byr iawn o waith y Fforwm. Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys agendâu, adroddiadau a chofnodion ar gael ar wefan Bro Morgannwg.

Fel y nodom mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, mae'n gyfnod caled o hyd i bawb yn y sector cyhoeddus. Mae pwysau cyllidebol yn parhau i effeithio ar ein gwasanaethau ond rydym er gwaethaf hynny yn hapus i gydnabod perthynas adeiladol y Fforwm â Chyngor Bro Morgannwg.

Mae'n ofynnol ailbenodi'r Fforwm bob tair blynedd ac mae'r aelodau presennol yn y rôl ers Medi 2015. Er hynny, mae nifer o aelodau'r fforwm wedi bod yn y rôl ers cyfnodau hwy o lawer ac maen nhw'n parhau i gynnig eu profiad i waith y fforwm.

Fel bob amser, yn ogystal â diolch i aelodau am eu hymdrechion yn ystod y flwyddyn, rydym unwaith eto am nodi cymaint rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth y mae'r amryw swyddogion sydd wedi bod yn rhan o'n gwaith wedi'i roi, a'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn arbennig.

Eddie Williams (Cadeirydd)
Jeff Wyatt (Ysgrifennydd)

Beth yw'r Fforwm Mynediad Lleol?

Swyddogaeth Fforwm Mynediad Lleol Bro Morgannwg yw cynghori'r Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru ac eraill fel y bo'n briodol. Mae'r cylch gorchwyl hwn yn cwmpasu'r gwaith o wella hygyrchedd tir hamdden awyr agored i'r cyhoedd a mwynhad o'r tir, mewn ffyrdd sy'n rhoi ystyriaeth i fuddiannau rheoli, cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgol.

Cyfarfodydd

Bu i'r Fforwm newydd gyfarfod ar dri achlysur yn ystod 2016/17 - ym mis Mai, mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2016.

Crynodeb o'r Flwyddyn

Y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP).

Mae bellach yn bryd ailgyhoeddi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac i'r diben hwnnw bu'r Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn gwneud y paratoadau ar ei gyfer. Yn ystod 2016/17, cafodd yr ymgynghoriad cychwynnol, gan gynnwys cylch gorchwyl ac amserlen ar gyfer yr adolygiad, eu llunio. Gan ddibynnu ar yr ymgynghoriad, mae disgwyl y caiff drafft o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd ei lunio yn ystod 2017/18.

Rhaglen Gwella Hawliau Tramwy a Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir

Mae'r Fforwm yn monitro cynnydd ar y rhaglenni hyn drwy adroddiadau rheolaidd gan swyddogion.

Mae cyllid o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi gwarantu pedwar project yn ystod cyfnod 2016/17 a dau arall nad oedd modd eu symud yn eu blaenau. Yn rhan o'r projectau bu gwaith ar 30km o lwybrau blaenoriaeth, cefnogaeth i gynllun gwirfoddoli "Mabwysiadu Llwybr" a gwelliannau i wynebau dau lwybr ysgol.

Cafwyd ymchwiliadau i ddau broject arall, ond doedd dim modd eu symud yn eu blaenau eleni. Nod y rhain oedd mynd i'r afael â'r rhestr o anghysonderau'r Map Diffiniol yn sgil ymarfer blaenorol ar sicrhau ansawdd adeg ailgyhoeddi'r Map Diffiniol a phennu hawliau tramwy ger Melin Trebefered. Oherwydd newid i dir-berchnogaeth ym Melin Trebefered, ni fu'n bosibl cwblhau'r project o fewn cyfnod y grant.

Cefnogodd y Rhaglen Gwella Hawliau Tramwy'r gwaith o adolygu a chyflawni rhaglen glirio 30km o lwybrau blaenoriaeth gan gynnwys mapio llwybrau a phenodi contractwyr i ymgymryd â'r gwaith. Bu gwelliannau ar wyneb llwybrau yn Ninas Powys yn fodd i fynd i'r afael â phroblemau llifogydd a fu'n achos cwyno cyson drwy godi lefel y llwybr yn yr ardal a effeithiwyd. Yn Llanilltud Fawr cafodd llwybr ysgol lleidiog ei wella drwy ychwanegu haenen o lwch cerrig.

Ymhlith projectau Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir, roedd Gorchmynion Cyfreithiol yn Ogwr, yr As Fawr a Silstwn i wella Llwybr Arfordir Cymru neu i sicrhau hawliau lle y bu llwybrau caniataol gynt.

Ymhlith gwelliannau cafodd wynebau newydd eu gosod yn Dimhole, a chwblhawyd gwaith cyffelyb ar Gaeau Chwarae Sili ac i'r gorllewin o Gwm Colhuw.

(Gwelliannau Dimhole – Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir)

Blaenoriaethau Cynnal a Chadw

Ym mhob cyfarfod, cafodd y Fforwm adroddiadau yn cwmpasu Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor sy'n cynnwys tua 570km o lwybrau. Mae problemau cynnal a chadw'n cael eu rhannu'n chwe chategori at ddibenion dadansoddi ystadegol.
Mae swyddogion hefyd yn cyflwyno ym mhob cyfarfod y wybodaeth ddiweddaraf am Orchmynion Addasu a Gorchmynion Cyfreithiol.

Ymatebion Ymgynghori

Yn 2015/16, ystyriodd y Fforwm sylwadau a'u cyflwyno ar Ddogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru – "Gwella Cyfleoedd i Gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Cyfrifol". Cafodd crynodeb o'r ymatebion cyffredinol eu cyflwyno i'r cyfarfod Mai 2016."

Arolygon Aelodau Fforwm Mynediad Lleol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Unwaith eto, bu aelodau o'r Fforwm yn ymgymryd ag arolwg sampl o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Yn gyffredinol, gwnaed arolwg o 10% o'r rhwydwaith, a hynny drwy arolygon yn y Gwanwyn a'r Hydref. Cafodd y manylion a roddwyd gan yr arolygwyr ei fwydo'n uniongyrchol i'r gronfa ddata Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan ei gwneud yn bosibl mynd i'r afael â phroblemau o fewn rhaglenni gwaith a gynlluniwyd. Ymhlith y canlyniadau, roedd cyfradd basio o 59% yn achos "Llwybrau sy'n Hawdd eu Defnyddio".

62% oedd canlyniad yr Hydref ac mae hynny'n cyfateb i ffigwr cyfartalog y 5 mlynedd diwethaf - 62%. Cafodd arolwg y Gwanwyn ei gwblhau ym mis Mai yn hytrach nag ym mis Ebrill. Efallai fod hynny wedi cyfrannu at y cynnydd bach yn nifer y cwynion am anifeiliaid/unigolion bygythiol; byddai'r anifeiliaid wedi bod allan o'r ysguboriau.

Efallai bod arolwg hwyr y Gwanwyn hefyd wedi cyfrannu at y cynnydd bach yn nifer y cwynion o ran broblemau aredig/medi. Er mai 5 yn unig o'r 52 o lwybrau a fethodd oherwydd aredig, roedd dau o'r rhain yn llwybrau arbennig o hir a'r rhain oedd wrth wraidd y gostyngiad yng nghyfradd basio'r Gwanwyn o 63% i 56%. Nid oedd canlyniadau arferol yr Hydref yn ddigon i wrthbwyso canlyniadau'r Gwanwyn a chodi'r ffigwr blynyddol.

(Llwybr Lludw – Gwelliannau Wyneb)

Cyflwyniadau

Ym mis Gorffennaf, traddododd Uwch Swyddog Adfywio Cyngor Bro Morgannwg, Carol Adams, gyflwyniad i'r Fforwm ar "Bro Groesawgar i Gŵn".

Mae aelodau'n parhau i fod yn ddiolchgar i bob un o'r rheini sy'n rhoi o'u hamser i gynorthwyo'r Fforwm o ran ei waith.

Briffio Aelodau

Fe welodd 2016/17 ddechrau rhaglen friffio ar gyfer y Fforwm ar bynciau penodol yn gysylltiedig â Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Hyd yn hyn, bu 2 weithdy ar Gynnal a Chadw a Chofnodi'r Rhwydwaith.

Aelodau 2016-17

Eddie Williams	**(Cadeirydd)**
Rhodri Traherne	**(Is-gadeirydd)**
Mr. F. Coleman	**Ms. A. Haden**
Mr. J.J. Herbert	**Ms. C. Lucas**
Mr. H.S. McMillan	**Ms. E. Nash**
Mr. R. Pittard	**Mr. R. Simpson**
Mr. G. Thomas	
Jeff Wyatt	**(Ysgrifennydd)**

Mae modd gweld rhagor o wybodaeth am Fforwm Mynediad Lleol Bro Morgannwg ar

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/environment/countryside/public_rights_of_way/local_access_forum.aspx